



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arloesi

Laser Wire Solutions

Disgwyl i gwmni o Gymru sy'n dylunio a gweithgynhyrchu peiriannau stripio gwifrau â laser drosi £4 miliwn yn 2017, diolch yn rhannol i gymorth arloesi Llywodraeth Cymru.



Paul Taylor, Rheolwr Gyfarwyddwr Laser Wire Solutions, gyda pheiriant pwrpasol Odyssey-4

Dechreuwyd Laser Wire Solutions ym Mhontypridd yn 2011 gan Paul Taylor, ffisegydd laser a gredai fod bwlch yn y farchnad ar gyfer cynhyrchion stripio gwifrau â laser, wedi'u haddasu yn ôl anghenion penodol cleientiaid. Roedd eisiau dylunio a gweithgynhyrchu peiriannau pwrpasol allai gael eu defnyddio i stripio gwifrau mor fân â gwallt a cheblau awyrofod a ddefnyddir mewn amrywiaeth o gynhyrchion datblygedig yn dechnolegol, fel cydosodiadau microdon, coiliau rheoliaduron y galon, dyfeisiau meddygol a ffonau symudol.

Trodd y gŵr busnes o dde-Cymru at dîm arloesi Llywodraeth Cymru a, thrwy grant gan SMARTCymru, ariannodd ddylunio a chynhyrchu peiriant cyntaf y cwmni – peiriant unigryw, nad oedd ar gael ar y pryd, i dorri gwifrau â laser. Heddiw, fel rheolwr gyfarwyddwr un o'r cwmnïau sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru, mae'n priodoli'r cyngor, yr arbenigedd ac yna'r cymorth ariannol a gafodd am helpu i droi ei syniad busnes arloesol yn gwmni gwerth miliynau o bunnoedd sy'n cynhyrchu cynhyrchion mawr eu chwennydd gan gwmnïau uwch-dechnoleg, sydd wedi'u lleoli yn yr Unol Daleithiau yn bennaf.

Cyflawniadau allweddol:

- Ariannu dylunio a chreu cynnyrch cyntaf y cwmni
- Buddsoddiad mewn technoleg yn arwain at y gwerthiant cyntaf, gan hybu hygrededd a thwf y cwmni
- Hyn yn arwain at greu 25 swydd a hybu trosiant

Gyda gallu'r peiriant ar waith i ddangos beth allai Laser Wire Solutions ei wneud, enillodd y cwmni ei gontract cyntaf – cyflenwi peiriant stripio gwifrau â laser i fusnes yn Ffrainc. Helpodd y tîm arloesi i Dr Taylor gael gafael ar gymorth ariannol arall gan Gyllid Cymru, Rhwydwaith Angylion Busnes Cymru a South West Angel and Investor Network. Yn 2015, ymunodd Laser Wire Solutions â Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru, Llywodraeth Cymru, a helpodd i sicrhau cynnydd o fwy nag £1 filiwn mewn gwerthiannau i'w hallforio, o fewn blwyddyn.

Heddiw, mae'r cwmni yn dylunio ac yn gweithgynhyrchu amrywiaeth o gynhyrchion stripio gwifrau sydd â marc CE ac sy'n cydymffurfio â'r FDA – cynhyrchion sy'n seiliedig ar dechnoleg a ddatblygwyd ar gyfer rhaglen Gwenoliaid Gofod NASA. A chanddo weithlu o 25 ac yn allforio o leiaf hanner ei gynhyrchion i'r Unol Daleithiau, mae Dr Taylor yn rhagweld y bydd trosiant y cwmni yn 2017 dros £4 miliwn.

Nid yw'n gorffwys ar ei rwyfau, fodd bynnag. Mae gan Laser Wire Solutions, cwmni blaenllaw yn y Wales Fast Growth 50 yn 2017, gynlluniau uchelgeisiol i ehangu. Ei nod yw cynyddu ei drosiant bedair gwaith yn ystod y ddwy flynedd nesaf trwy ehangu ei ddewis o beiriannau tra-chywir i stripio gwifrau â laser, gan ychwanegu galluoedd newydd a chynyddu'r graddau y mae ei gynhyrchion ar gael yn fyd-eang – yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n anelu at greu Cymru fwy ffyniannus.

“Ni fuaswn wedi gallu cyrraedd y pwynt hwn heb Lywodraeth Cymru. Cafodd y busnes ei gontract cyntaf oherwydd cefais y cyllid angenrheidiol i ddylunio peiriant unigryw i dorri gwifrau â laser, gan ddangos beth oeddwn i'n gallu'i wneud. Fe wnaeth y contract cyntaf hwnnw helpu Laser Wire Solutions i ennill hygredded i'r busnes, a wnaeth ganiatáu i mi sicrhau buddsoddiad gan SMARTCymru, ac yna aeth y busnes rhagddo. Mae gwneud cais am gymorth Llywodraeth Cymru yn eich annog i roi trefn ar eich cynllun busnes, yn rhoi cyngor arbenigol i chi ac, yn hollbwysig hefyd, yn rhoi'r cyllid sydd ei angen yn aml ym maes gweithgynhyrchu i gychwyn arni.”

Dr Paul Taylor, Rheolwr Gyfarwyddwr a Phrif Weithredwr Laser Wire Solutions.Solutions.

**Busnes | Business
Cymru | Wales**

I wybod rhagor am gyllid a chymorth
gan Lywodraeth Cymru | 03000 6 03000
innovation@llyw.cymru | businesswales.gov.wales/cy/innovation



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**